# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 14 AWST 2017 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: T J Hennegan (Is-gadeirydd)

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | C A Holley |
| P Jones | E J King | I E Mann |
| W G Thomas | | |

| Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) | Aelodau Cyfetholedig(wyr) |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | P M Black | P R Hood-Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, C R Evans, M H Jones, M Sykes a/ac G J Tanner

17 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â chôd ymarfer a fabwysiedir gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

18 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatgelwyd unrhyw ddatganiadau o Bleidleisiau Chwip neu Chwipiau'r Pleidiau.

19 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Craffu a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

20 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Gofynnodd Mr John Williams nifer o gwestiynau, ar ran preswylwyr Uplands a Brynmill, mewn perthynas â gorfodi trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (HMOs).

Diolchodd y Cynghorydd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladu, i Mr Williams am ei gwestiynau a dywedodd y byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig llawn i'r holl gwestiynau a ofynnwyd.

Fodd bynnag, dywedodd Aelod y Cabinet ei bod bob amser yn well ymdrin â materion HMO, ac ymgysylltu â landlordiaid a thenantiaid, yn anffurfiol yn gyntaf, gan ystyried erlyniad fel dewis olaf. Cyfeiriodd at y 'Datganiad o Ddealltwriaeth' gan ddeilliaid trwyddedu o ran cydymffurfio â rhagofalon tân, rheoli gwastraff, ymddygiad gwrthgymdeithasol a rheoliadau rheoli.

Pwysleisiodd Mr Williams fod preswylwyr yn disgwyl gweld y Cyngor yn cymryd camau cyn gynted â phosib. Croesawodd Aelod y Cabinet y sylwadau a derbyniodd fod lle i wella gan fwriadu gweithio'n agos gydag aelodau lleol, yn enwedig yn ardal rheoli'r HMO, i fynd i'r afael â materion. Ychwanegodd, ers cymryd cyfrifoldeb dros HMOs ym mis Mai, roedd hi wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu Canllaw Cynllunio Atodol a fyddai'n helpu i reoli nifer yr HMOs.

21 **SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS WASANAETHAU TAI, YNNI AC ADEILADU (Y CYNGHORYDD ANDREA LEWIS).**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau, ar lafar at yr adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd ar ei chyfrifoldebau a'i chyflawniadau portffolio.

Dyma ffocws y cwestiynau a thrafodaethau gydag Aelod y Cabinet:

- **Rheoli HMO**
  - Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at fanylion erlyniad llwyddiannus diweddar, lle roedd landlord wedi cael ei erlyn am 25 o droseddau yn ymwneud â methu cydymffurfio â rheoliadau, yn enwedig rhagofalon diogelwch tân, a oedd yn peri risg ddifrifol. Derbyniodd y landlord ddirwy o £18,600 gyda chostau llawn o oddeutu £1692 yn cael eu dyfarnu i'r Cyngor.
  - yr amserlen ar gyfer y Canllaw Cynllunio Atodol yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio.
- **Rhentu Doeth Cymru** - Gofynnodd yr Aelodau am yr effaith cafodd y gwasanaeth hwn ar yr adran, pa staff ychwanegol a gyflogwyd i ddelio â hyn a phryd oedd y tro diwethaf yr adolygwyd staffio.
- **Strategaeth Digartrefedd** - rhoddwyd y diweddaraf am ddatblygiad y strategaeth. Erbyn hyn derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a byddai'n cael eu hadrodd yn ôl i Bwyllgor Datblygu a Chyflawni Polisi Trechu Tlodi i'w trafod cyn ymgynghori pellach â rhanddeiliaid perthnasol eraill. Disgwylir cymeradwyaeth y Cyngor yn nhymor yr hydref 2018. Gofynnodd y pwyllgor am graffu cyn-penderfynu ar y strategaeth neu ymgysylltiad cynharach i sicrhau cyfle i ddylanwadu ar y strategaeth ddrafft mewn da bryd.
- **Tai Cyngor/Diogelwch Tân mewn Adeiladau**
  - trafodwyd y gwahaniaeth rhwng rheoliadau tân y DU a rheoliadau tân Ewropeaidd.
  - rhoddodd Aelod y Cabinet y diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â chanlyniadau cadarnhaol diweddar profion diogelwch tân ar gladin a ddefnyddiwyd ar ein

hadeiladau uchel, sydd wedi pasio profion Llywodraeth y DU. Dywedodd fod yr holl system diogelwch tân yn ddiogel, ac yn uwch na'r safonau gofynnol.
- roedd yr aelodau'n canmol yr ymateb lleol yn sgîl tân Twr Grenfell er mwyn rhoi sicrwydd i breswylwyr.
- systemau taenellu - cadarnhaodd Aelod y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod systemau taenellu yn cael eu gosod mewn pob adeilad newydd.
Byddai taenellwyr hefyd yn cael eu gosod ym mhlociau fflatiau uchel y cyngor ym mis Tachwedd. Rhoddir blaenoriaeth i flociau o fflatiau sydd â chladin allanol wedi'i osod, a bydd gwaith yn mynd yn ei flaen fesul cam dros y misoedd nesaf i'w gosod ym mhob bloc o fflatiau uchel. Gofynnodd y Cynghorwyr am sicrhad bod tenantiaid yn ymwybodol o'r system daenellu a roddir ar waith a'r sefyllfa o ran yswiriant os bu unrhyw ddiffyg. Gofynnwyd i Aelod y Cabinet ystyried ymgysylltu â phob cynghorydd am y system er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth. Roedd yr aelodau'n croesawu esboniad o sut mae'r system yn gweithio.
- Blancedi tân - cadarnhaodd aelod y cabinet na fyddai'r rhain yn cael eu rhoi i denantiaid o ganlyniad i gyngor a gafwyd gan y Gwasanaeth Tân, ac o ganlyniad i faterion eraill. Y cyngor a roddir i breswylwyr yw diffodd y ffynhonnell berthnasol, e.e. yr hob, gadael yr eiddo, a pheidio â mynd i'r afael â'r tân eu hunain a allai beri mwy o berygl i bobl.

- **Unedau Cefnogi Cymdogaethau/Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** - gofynnodd y pwyllgor am effeithiolrwydd ymdrin ag ymddygiad a heriau gwrthgymdeithasol.
- **Cynllun Gwresogi Ardal** - gofynnodd y pwyllgor am gynnydd a dywedwyd bod opsiynau'n cael eu hystyried o hyd ynglŷn â'r ffordd orau o gyflwyno hyn. Ychwanegodd Aelod y Cabinet fod un o brosiectau'r Fargen Ddinesig yn ymwneud â 'chartrefi fel gorsafoedd pŵer' er mwyn galluogi adeiladau i gynhyrchu, storio a rhyddhau ynni.
- **Prosiect Adeiladu Mwy o Dai Cyngor** - dywedwyd wrth y pwyllgor fod y datblygiad yn Ffordd Milford, Penplas yn datblygu'n dda. Roedd Aelod y Cabinet yn falch iawn o'r prosiect a chanmolodd y gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol. Byddai eiddo'n cael eu dyrannu ar ddiwedd mis Hydref i'r rhai ar frig y rhestr Dai a'r rheiny sydd â'r angen mwyaf. Gofynnodd y pwyllgor am gostau a dywedwyd wrtho y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno ym mis Medi.
- **Isadeiledd Trydanu Cerbydau Trydan** - teimlwyd bod angen ymagwedd 'Cymru gyfan' i wella hyder defnyddwyr wrth iddynt ddechrau defnyddio cerbydau trydan. Roedd cerbydau trydan ychwanegol yn y broses o gael eu prynu fel rhan o'n cerbydlu - gan ei gynyddu i 40 o gerbydau. Gofynnwyd am restr o bwyntiau trydanu cyhoeddus yn yr ardal.
- **Cynlluniau Ynni Gwyrdd** - ystyriwyd pob opsiwn, gan gynnwys gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos eraill ar dechnoleg bio-màs, megis Cynghorau Castell-nedd Port Talbot/Pen-y-bont ar Ogwr.
- **Morlyn Llanw Bae Abertawe -** Roedd Llywodraeth y DU yn ystyried hwn o hyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet am ddod a rhoi'r diweddaraf mewn ffordd gynhwysfawr.

**PENDERFYNWYD** bod Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Craffu yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan nodi’r drafodaeth a rhannu safbwyntiau'r Pwyllgor.

## 22 CRAFFU CYN PENDERFYNU AR ADRODDIADAU'R CABINET.

Rhoddodd y Cadeirydd arweiniad ar graffu cyn penderfynu cyn cyflwyno adroddiadau’r Cabinet am:

a) Adolygiad Comisiynu Arlwyo'r Cyngor Cyfan (eitem 8 yr agenda);
b) Adolygiad Comisiynu Cynllunio ac Adfywio’r Ddinas (eitem 9 yr agenda).

**PENDERFYNWYD:**

1) Nodi’r broses graffu cyn penderfynu a rôl y Pwyllgor;
2) Bod y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau a chynigion y Cabinet (eitemau 8 a 9 yr agenda);
3) Bod y Pwyllgor yn cytuno ar unrhyw farn am y penderfyniad arfaethedig sydd i'w chodi gyda'r Cabinet.

## 23 CRAFFU CYN PENDERFYNU: ADOLYGIAD COMISIYNU ARLWYO'R CYNGOR CYFAN. (ADRODDIAD AELOD Y CABINET DROS DRAWSNEWID GWASANAETHAU A GWEITHREDIADAU BUSNES)

Roedd y Cynghorydd Clive Lloyd, Aelod Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes ac Andrew Hopkins, Ymgynghorydd Gwella Busnes, yn bresennol er mwyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad y cabinet ar 'Adolygiad Comisiynu Arlwyo'r Cyngor Cyfan'.

Esboniodd Aelod y Cabinet sut roedd yr adolygiad hwn yn broses sy'n datblygu fel rhan o 'Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol', a'r cyntaf mewn cyfres a fydd yn cynrychioli adolygiad trawsbynciol o'r cyngor cyfan. Nodwyd gan yr adolygiad fod dyblygiad o ran swyddogaethau penodol ar draws y Cyngor yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, a'n gwasanaeth arlwyo ‘mewnol’. Er bod rhai gwasanaethau wedi'u heithrio o'r adolygiad, daeth yn amlwg nad oedd modd cynnal y gwasanaeth presennol.

Byddai ymagwedd y Cyngor cyfan tuag at wella’r gwasanaethau arlwyo yn cael ei datblygu yng nghynllun busnes 3 blynedd, sydd wedi’i gynnwys yn adroddiad y cabinet.

Yr opsiwn a ffefrir, fel a amlinellir yn yr adroddiad, oedd cyfuno'r gwasanaeth prydau bwyd ysgol ac arlwyo’r gwasanaethau cymdeithasol i fod yn un gwasanaeth a reolir yn fewnol a fyddai hefyd yn rheoli swyddogaethau arlwyo staff presennol yn y Ganolfan Ddinesig, Neuadd y Ddinas a Glanfa Pipehouse.

Ystyriodd y Pwyllgor yr argymhellion arfaethedig yn yr adroddiad a nodwyd unrhyw faterion a phryderon y dylid eu dwyn i sylw'r Cabinet cyn ei benderfyniad ar 17 Mawrth 2017.

Roedd rhai yn pryderu ynghylch yr amser cyfyngedig sydd ar gael i ystyried yr adroddiad, ond nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i'r argymhellion. Fodd bynnag, roedd gan yr aelodau nifer o sylwadau y gofynnwyd iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet, mewn perthynas â'r canlynol:

• Yr angen am graffu pellach ar weithredu'r cynllun busnes
• Y cysylltiad ag ysgolion a materion
• Yr angen i ddangos bod y gwasanaeth mewnol integredig yn gystadleuol
• Y rheolaethau mewnol sydd eu hangen i gefnogi'r model busnes
• Goblygiadau gwerthiant arfaethedig y Ganolfan Ddinesig ar gynlluniau
• Pa mor gyraeddadwy yw'r arbedion arfaethedig
• Yr angen am fwy o dystiolaeth yn yr adroddiad i gefnogi mai gwrthod contract allanol yw'r ffordd orau o fwrw ymlaen
• Yr awydd am bwyslais ar gael bwyd lleol a gwella maeth wrth ystyried cynllun y dyfodol

Dywedodd Aelod y Cabinet y byddai'n hapus i fwy o adroddiadau gael eu hystyried gan graffu fel y gofynnir amdanynt yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Craffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet mewn perthynas â barn y Pwyllgor, er ystyriaeth y Cabinet.

24 **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU: ADOLYGIAD COMISIYNU CYNLLUNIO AC ADFYWIO'R DDINAS. (ADRODDIAD AR Y CYD GAN AELODAU'R CABINET DROS DDIWYLLIANT, TWRISTIAETH A PHROSIECTAU MAWR, A CHYFLEOEDD MASNACHOL AC ARLOESEDD)</u>**

Roedd y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr a Phil Holmes, Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, yn bresennol er mwyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad y cabinet ar 'Werthusiad Opsiynau ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau yn y Dyfodol yng Nghwmpas Adolygiad Comisiynu Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas'.

Roedd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas wedi rhoi cyflwyniad yn ogystal â'r adroddiad, a roddodd gefndir i'r adolygiad comisiynu. Esboniodd hefyd y canfyddiadau allweddol a'r dystiolaeth ategol mewn perthynas â gwerthuso opsiynau perfformiad, cyllid, meincnodi a darparu gwasanaethau i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn argymell y byddai gwasanaethau'r dyfodol yn cael eu cyflwyno orau drwy fodel mewnol a drawsnewidiwyd.

Ystyriodd y pwyllgor y materion allweddol, y casgliadau a'r argymhellion arfaethedig yn yr adroddiad a nodwyd unrhyw faterion a phryderon y dylid eu dwyn i sylw'r Cabinet cyn ei benderfyniad ar 17 Mawrth 2017.

Er bod gan y Pwyllgor bryderon o ran yr amser cyfyngedig i graffu ar yr adroddiad, roedd y Pwyllgor yn gallu cefnogi'r penderfyniad arfaethedig. Roedd yn ystyried bod gan yr adroddiad dystiolaeth dda a rhoddodd achos clir dros drawsnewid mewnol. Cydnabu'r Pwyllgor natur arbenigol y gwaith a wneir yn y gwasanaeth hefyd, sy'n cefnogi datblygu model mewnol.

Roedd y Pwyllgor yn arbennig o falch o weld bod Marchnad Abertawe yn nodwedd ffafriol yn yr adolygiad. Roedd yr Aelodau yn meddwl ei bod yn ased gwych i ganol y ddinas a'i bod yn bwysig ei bod hi'n parhau i fod dan reolaeth y Cyngor.

Er bod y Pwyllgor yn gefnogol, amlygwyd nifer o faterion perthnasol er mwyn i'r Cabinet eu hystyried, gan gynnwys:

• Yr angen am fwy o graffu i fonitro cynnydd o ystyried y swm sylweddol o waith sydd ei angen i gyflawni'r trawsnewid a ddymunir
• Pryderon ynghylch y bwriad i rannu'r Tîm Datblygu Cynaliadwy presennol, a gwanhau cefnogaeth ar gyfer y gwaith pwysig hwn
• Manteision o ran creu Tîm Pridiannau Tir craidd.

**PENDERFYNWYD** bod Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Craffu yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet i nodi barn y Pwyllgor, er mwyn i'r Cabinet ei hystyried.

## 25 AELODAETH PANELI CRAFFU A GWEITHGORAU.

Ar ôl gwahodd mynegiannau o ddiddordeb gan gynghorwyr anweithredol, rhoddodd y Cadeirydd restr aelodaeth arfaethedig ar gyfer yr Ymchwiliad, y Paneli Perfformiad a'r Gweithgorau.

**PENDERFYNWYD**:

1) Cytuno ar yr aelodaeth;
2) Cyfethol Cynullwyr Panel Perfformiad Ysgolion a Phanel Perfformiad Datblygu ac Adfywio i'r Pwyllgor, os nad ydynt eisoes yn aelodau o'r Pwyllgor.

## 26 RHAGLEN WAITH CRAFFU 2017/18.

Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r Pwyllgor am Raglen Waith Craffu 2017/2018.

Darparodd yr adroddiad y canlynol i'r Pwyllgor:

• Y Rhaglen Waith Craffu;
• Cynllun ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol;
• Adroddiad cynnydd a chynllun ar gyfer y Paneli a'r Gweithgorau.
• Cylch Gorchwyl y Panel Perfformiad

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio.

## 27 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017/2018.

## 28 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PANELI/GWEITHGORAU SYDD AR DDOD.

Darparwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd Panel/Gweithgorau sydd i ddod er

gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.53 pm

**CADEIRYDD**